**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED**
**LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llansantffraed a gynhaliwyd am 8:00 pm ar nos Fawrth, 17th May 2022 yn Festri Capel Siloh, Llanon**

Yn bresennol:
Cadeirydd: y Cynghorydd Sheila Davies
Y Cynghorwyr Keith Henson, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Andrew Phillips ac Aled Roberts.
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**11 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Lodwick Lloyd a Gwenno Piette am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**12 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 5ed Ebrill 2022**
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd 5ed Ebrill 2022 fel rhai cywir.

**13 Materion yn codi o'r Cofnodion**

a) 784c) Tir yn ardal Nebo. Adroddodd y Clerc rhestr o weithredoedd a dderbyniwyd oddi wrth Evans & Davies, Cyfreithwyr y Cyngor. Nodwyd nad oedd yna gyfeiriad at darn o dir yn Nebo. Prun bynnag, roedd yna dir o'r enw 'Tir yn Llanrhystud' ar y rhestr a **PHENDERFYNWYD** gwneud ymholiadau pellach.

b) Cofnod 771 – y lle eistedd. Dywedodd y Clerc fod trwydded drafft wedi'i anfon at berchennog Gwesty'r Central ar gyfer ei sylwadau.

c) Cofnod 784d) – y cyn-giosg yn Llanon. Nodwyd fod y cyflenwad trydar wedi cael ei ddatgysylltu a chytunwyd bwrw mlaen gyda'r gwaith o'i droi yn gyfnewidfa llyfrau.

d) Cofnod 791 Cynllun Grant Cymunedol Wales and West / Morgan Construction – nodwyd bod trafodaethau'n parhau o ran gwneud y Gwaith.

**Minutes of a meeting of Llansantffraed Community Council held at 8:00 pm on Tuesday, 17eg Mai 2022 at the Siloh Chapel Vestry, Llanon**

Present:
Chairman: Sheila Davies
Councillors Keith Henson, Hywel Llŷr Jenkins, Dennis Morgan, Andrew Phillips and Aled Roberts.
Denfer Morgan (Clerk)

**11 Apologies**
Councillors Lodwick Lloyd and Gwenno Piette apologised for their inability to attend the meeting.

**12 Minutes of the Monthly Meeting held on 5th April 2022**
The Minutes of the Meeting of the Council held on 5th April 2022 were confirmed as being a correct record.

**13 Matters arising from the Minutes**

a) Minute 784c) Land in the Nebo area. The Clerk reported a list of deeds received from Evans & Davies, the Council's Solicitors. It was noted that there was no reference to a piece of land at Nebo. However, there was land called 'Land at Llanrhystud' on the list and it was **RESOLVED** to make further enquiries.

b) Minute 771 Seating area. The Clerk advised that the owner of the Central Hotel had been sent a draft licence for comments.

c) Minute 784d) Former kiosk in Llanon. It was noted that the electricity supply had been disconnected and it was agreed to proceed with the work of converting it to a book exchange.

d) Minute 791 Wales and West Community Grant Scheme / Morgan Construction – it was noted that discussions were continuing for undertaking the work.

**14 Arolwg Misol**
Adroddodd y Cynghorydd Sheila Davies rhai materion a chytunwyd fel a ganlyn.
Cysylltu gyda’r contractwr i holi o soes modd iddo trin y chwyn ar y cyrtiau tenis a thorri’r tyfiant sy’n ffinio gyda maes parcio’r Waun.
Nid oeed yna faterion i godi ynghylch cyflwr y llain a’r lle eistedd.
Roedd angen cynhyrchu rota ar gyfer 2022.

**14 Monthly Inspection**
Councillor Sheila Davies reported matters and it was agreed as follows.
To contact the contractor to enquire whether he could treat the weeds on the tennis courts and cut the growth adjacent to the Waun car park.
There were no matters to raise in respect of the condition of the slang and the seating area.
The inspection rota would need to be produced for 2022.

**15 Y Lle Chwarae**
Gofynwyd i’r Clerc gysylltu gyda Wicksteed i garnhau pryd y byddant yn gwneud y gwaith trwsio.

**15 Playground**
The Clerk was requested to contact Wicksteed to ascertain when the repairs would be undertaken.

**16 Llain y Cyngor**
Roedd angen cymryd i ffwrdd y cerrig mân a oedd wedi bod yn rhan o ‘Monty Sid’ nad oedd wedi cael eu casglu.

**16 Council’s Slang**
The pebbles which had formed part of ‘Monty Sid’ which had not been collected needed removing.

**17 Llwybrau Troed**
Roedd yr arwyddion wedi’u derbyn ac fe fyddant yn cael eu gosod yn eu lle yn fuan.
Roedd Warden Llwybrau y Cyngor Sir yn cymryd camau i ddelio gyda’r llwybr oedd yn cael ei rwystro ac a oedd yn destun cwynion o hyd.
Cytunwyd gael eglurhad os oedd beiciau yn cael bod ar llwybr yr arfirdir.

**17 Footpaths**
The signs had been received and would be put in place shortly.
The County Council Footpaths Warden, Gareth Jones was taking action in respect of the blocked footpath which was still the subject of complaints.
It was agreed to clarify whether cycles were allowed on the coastal footpath.

**18 Meinciau**
**PENDERFYNWYD** gofyn i’r Cynghorydd Sir Keith Henson ddilyn i fyny cais trigolion am feinciau newydd yng Nghylch Peris.

**18 Benches**
It was **RESOLVED** to request County Councillor Keith Henson to follow up the request of residents for replacement benches at Cylch Peris.

**19 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD:**

i) talu’r canlynol:
BHIB (Adnewyddu Yswiriant) - £554.89
Prynu gliniadur gan y Clerc (cais am gyfraniad 4/5 i’r gost o £429.99) - £100

ii) nodi derbyn taliad cyntaf Praesept 2022-23 yn y swm o £5,666.66.

**19 Finance Matters**

It was **RESOLVED:**

i) to pay the following:
BHIB (Insurance Renewal) - £554.89
Purchase of laptop by Clerk (4/5 contribution requested to the cost of £429.99) - £100

ii) to note receipt of the first payment of the 2022-23 Precept in the sum of £5,666.66.

iii) trefniadau bancio; penodi'r Cynghorwyr Sheila Davies, Gwenno Piette ac Aled Roberts yn llofnodwyr awdurdodedig ar gyfer sieciau.

iii) Banking arrangements: that Councillors Sheila Davies, Gwenno Piette and Aled Roberts be appointed authorised signatories for cheques.

**20 Cyfarfodydd y Cyngor yn y Dyfodol**

Cymeradwywyd y rhaglen gyfarfodydd ar gyfer 2022-23.

Rhoddwyd ystyriaeth i gais y Cynghorydd Lodwick Lloyd bod y Cyngor yn dychwelyd i gwrdd yn yr Ystafell Ddarllen. Teimlad yr Aelodau oedd fod y man cyfarfod hwn yn fwy addas ar gyfer cynnal cyfarfodydd.

Cyfeiriodd y Clerk at ofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Gynghorau gynnal cyfarfodydd aml-leoliad a'i fod yn gwybod am yn Clerc oedd yn cynnal cyfarfodydd mewn Ysgol Gynradd Gymunedol lleol gan fod adnoddau ar gael yno i alluogi cyswllt o bell.

**PENDERFYNWYD** barhau i gwrdd yn y lleoliad presennol ac i ofyn i'r Clerc gysylltu gyda Phennaeth Ysgol Gynradd Gymunedol Llannon ynghylch y posibilrwydd o'i ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer cyfarfodydd.

**20 Future Meetings of the Council**

The programme of meetings for the 2022-23 municipal year was approved.

Consideration was given to the request of Councillor Lodwick Lloyd that the Council revert to meeting in the Reading Room. Members felt that the current venue was more suitable for holding meetings.

The Clerk referred to the requirement of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 for Councils to hold multi location meetings and that he knew of one Clerk who was holding meetings at the local Community Primary School as it contained resources to enable remote attendance to take place.

It was **RESOLVED** to continue to meet at the current location and to request the Clerk to contact the Headteacher of the Llannon County Primary School as to the possibility of using its hall for future meetings.

**21 Unrhyw fater cymwys arall**

a) Dywedodd y Cynghorydd Sir Keith Henson ei fod wedi bod mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru i newid cyfyngiadau cyflymdra 30 mya i 20 mya. Nodwyd y byddai Cynghorau Tref a Chymuned yn cael ymgyngfghori ar y mater.

b) Dywedodd y Cynghorydd Dennis Morgan ei fod mewn trafodaethau gyda Enzo's ynghylch ail-osod cyrbiau isel, clirio traeth Morfa a darparu hysbysfwrdd i'r gymuned yn Stad Craig Ddu.

**21 Any Other Competent Business**

County Councillor Keith Henson stated that he had attended a meeting earlier that day in respect of the proposal of the Welsh Government to replace 30 mph speed limits with 20 mph speed limits. It was noted that Town and Community Councils would be consulted on the proposals.

Councillor Dennis Morgan stated that he had discussed matters relating to replacing dropped kerbs, clearing Morfa beach and the provision of a community noticebard at Stad Craog Ddu with Enzo's.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:45pm

The meeting concluded at 8:45pm